ATODLEN 2

Rheoliad 20(1)

## GWYBODAETH A DOGFENNAU I'W DARPARU I SWYDDOG ACHOSION TEULUOL AR GYFER CYMRU NEU SWYDDOG O CAFCASS

**1.** Copi o dystysgrif geni'r plentyn.

**2.** Enw a chyfeiriad rhiant neu warcheidwad y plentyn.

**3.** Cronoleg o'r camau a'r penderfyniadau a gymerwyd gan yr asiantaeth o ran y plentyn.

**4.** Cadarnhad gan yr asiantaeth ei bod wedi cwnsela, ac wedi esbonio i'r rhiant neu'r gwarcheidwad oblygiadau cyfreithiol y cydsyniad i leoli o dan adran 19 o'r Ddeddf a hefyd, yn ôl y digwydd, o ran gwneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, a'i bod wedi rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r rhiant neu'r gwarcheidwad ynghylch y mater hwn ynghyd â chopi o'r wybodaeth a roddwyd i'r rhiant neu'r gwarcheidwad.

**5.** Unrhyw wybodaeth am y rhiant neu'r gwarcheidwad neu wybodaeth arall y mae'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn y gall y swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog CAFCASS fod angen ei gwybod.